Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 26.11.2020

## Estyniad i Grant y Cynllun Cymhorthdal Incwm Hunangyflogaeth – SEISS

Mae'r grant yn cael ei estyn o 1 Tachwedd 2020 ymlaen ac ar gael mewn ffurf dau grant, bob un ar gael am gyfnod o dri mis, yr un yn cwmpasu Tachwedd 2020 hyd at Ionawr 2021, ac un yn cwmpasu Chwefror 2021 hyd at Ebrill 2021. Bydd y gwasanaeth ar-lein ar gyfer y grant nesaf ar gael o 30 Tachwedd 2020 ymlaen. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.gov.uk/government/publications/self-employment-income-support-scheme-grant-extension.cy

## Grant Rhwystrau Busnes Cymru

Mae rhan o raglen ymrwymiad i Covid-19 Llywodraeth Cymru o gymorth cyflogaeth a sgiliau ar waith i helpu pobl i ddychwelyd i'r gwaith yn cynnwys cefnogaeth ychwanegol i unigolion sy'n ystyried bod yn hunangyflogedig. Yn ogystal â'r gwasanaeth cychwyn busnes presennol, mae grant ar gael i

gefnogi unigolion di-waith sy’n wynebu mwy o rwystrau economaidd wrth ddechrau busnes. Bydd y grant dewisol hwn yn helpu hyd at 600 o unigolion i ddod yn hunangyflogedig neu i ddechrau busnes rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Mawrth 2021. Bydd unigolion yn gallu gwneud cais am hyd at £2,000 i gyfrannu tuag at gostau hanfodol dechrau busnes. Bydd angen i geisiadau gael eu cefnogi gan gynllun busnes sy’n amlinellu’r cynnig busnes a’r costau sy’n gysylltiedig â’r gwaith o sefydlu. Rheolir y grant drwy wasanaeth Busnes Cymru. Bydd y gronfa’n agor ar gyfer ceisiadau ar 1 Rhagfyr. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/cy/grant-rhwystrau-busnes-cymru

## Newyddion Diwydiant Croeso Cymru 26 Tachwedd 2020

Mae bwletin diweddaraf Croeso Cymru yn cynnwys y wybodaeth canlynol:

- Pedair gwlad y DU yn cytuno ar reolau newydd ar gyfer cyfnod yr ŵyl
- Cynnal Cyfarfodydd ar gyfer hyd at 15 o bobl dan do
- Digwyddiadau dros y Nadolig – Cwestiynau Cyffredin
- Casglu gwybodaeth, bod yn barod – diwedd cyfnod pontio’r UE
- Arolwg Tracio Cwsmeriaid Twristiaeth y DU COVID-19
  Deddfwriaeth ddi-fwg yng Nghymru – Canllawiau drafft
- Y Canllawiau Diweddaraf ar y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws
- Sefydliad Rheoli Cyrchfan newydd ar gyfer ‘Visit Pembrokeshire’
- Rhybuddio cwsmeriaid Hunanasesu am sgamwyr sy’n hawlio eu bod nhw o Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi
- Canllawiau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i gyflogwyr ar adrodd am rwymedigaethau ar gyfer taliadau a wneir yn gynnar adeg y Nadolig
- Ymgynghoriad ar y Comisiynydd Busnesau Bach.

Ewch i:

https://bit.ly/NewCroesoCymru26Tach2020

## Bwyd a Diod Cymru: Gweminar meithrin gwydnwch busnesau mewn cyfnod anwadal 1 Rhagfyr 2020

Wrth i 2020 ddirwyn i ben, mae cynhyrchwyr bwyd a diod Cymru yn wynebu amodau anwadal oherwydd effeithiau cyfunol Covid-19, Ymadael yr UE a chyfnod masnachu Nadolig na ellir ei ragweld. Ymunwch â Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru a Sgiliau Bwyd Cymru yn Ffair Aeaf rithiol Frenhinol Cymru eleni, ar 01 Rhagfyr 2020 rhwng 2:00pm – 3:00pm, i glywed pa gymorth sydd ar gael i wella gwydnwch busnesau drwy reoli risgiau. Am fyw o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/NewBwydDiod24Tach2020

## Gweminar newid telerau ac amodau cyflogaeth: osgoi camgymeriadau costus 9 Rhagfyr 2020

I lawer o fusnesau, mae'r wyth mis diwethaf wedi bod yn gyfnod heriol. Wrth i Gynllun Cadw Swyddi Coronavirus ddod i ben ar 31 Mawrth 2021, nawr yw'r amser i gyflogwyr ystyried eu cynlluniau ar gyfer gweithlu'r dyfodol. Fel rhan o'r broses, mae'n bosib y bydd rhai cyflogwyr yn edrych ar ffyrdd o leihau eu costau, naill ai dros dro neu'n barhaol, trwy newid telerau ac amodau cyflogaeth. Bydd y weminar hon gan Fusnes Cymru, wedi'i chyflwyno gan Jennifer Gibson o Gyfreithwyr Lanyon Bowdler, yn arwain cyflogwyr trwy'r broses o wneud newidiadau cyfreithlon i delerau cyflogaeth gytundebol yn ogystal â thrafod sut i osgoi problemau posib. Mae'r weminar yn cael ei chynnal ar 9 Rhagfyr 202 o 10:00am – 11:00am. Am ragor o wybodaeth ac er mwyn archebu eich lle, ffoniwch 01745 585025 neu anfonwch e-bost i:

northwales@businesswales.org.uk

## Cystadleuaeth Next Tourism Generation 2021

Trefnir y gystadleuaeth hon gan y Next Tourism Generation Project mewn cydweithrediad â Tourism Society Wales a PLANED. Mae'r gystadleuaeth wedi'i hanelu at bobl sy'n astudio mewn addysg bellach neu addysg uwch, neu at bobl ifanc ar ddechrau eu gyrfaoedd. Y nod yw helpu i hyrwyddo a llywio dyfodol twristiaeth a sgiliau cynaliadwy yn y diwydiant twristiaeth a lletygarwch

yng Nghymru. Mae'r gystadleuaeth Next Tourism Generation yn gofyn i'r rhai sy'n gymwys ymateb i'r cwestiynau hyn:

- Sut olwg ddylai fod ar ddyfodol twristiaeth yng Nghymru?
- Pa sgiliau a hyfforddiant fydd eu hangen ar y genhedlaeth nesaf o weithwyr proffesiynol ym maes twristiaeth i gefnogi'r datblygiad cynaliadwy hwn?

Mae mwy o fanylion, gan gynnwys telerau ac amodau llawn a'r Ffurflen Gais i'w gweld yma:

https://nexttourismgeneration.eu/event/ntg2021-cymraeg/

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch
busnes@gwynedd.llyw.cymru